**STD 04-02**

**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Agenda**

**Dyddiad:** Dydd Iau 31 Hydref 2002
**Amser:** 10:00am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd – 5 munud**

**Eitem Lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn amlinellu ei ddiben yn gryno, ac yn gofyn am unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ddydd Mercher 10 Gorffennaf 2002, yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Newyddion diweddaraf a'r camau sy'n codi o STD 02-02 - 5 munud**

**Papurau:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 04-02(01)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnydd y gwaith, a'r gwaith sydd ar y gweill.

**Eitem 3: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2000-2001 – 20 munud**

**Papur:** Papurau a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 04-02(02)

Gwahoddir yr aelodau i roi sylwadau ar ddrafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y cyfnod o 1 Awst 2001 i 31 Gorffennaf 2002, ac i gytuno ar fersiwn derfynol.

**Eitem 4: Yr Adolygiad o'r Gweithdrefnau Safonau Ymddygiad (Adolygiad Woodhouse) - 60 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Athro Woodhouse - STD 04-02(03)

Bydd yr Athro Woodhouse yn bresennol er mwyn cyflwyno drafft terfynol ei hadroddiad. Gwahoddir yr aelodau i roi eu barn gychwynnol ar ei hargymhellion terfynol, ac i gytuno y dylai'r Ysgrifenyddiaeth baratoi cynllun cyflawni er mwyn bwrw ati â'r adolygiad.

**Eitem 5: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

Mae posibilrwydd cynnal cyfarfod ddydd Iau 28 Tachwedd. Gwahoddir yr aelodau i benderfynu a oes angen cynnal cyfarfod. Byddai'r dyddiad cyfleus nesaf ar ôl toriad y Nadolig.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**